# Cofnodion Cyfarfod y Grwp Trawsbleidiol ar yr Iaith Gymraeg

6: 15 yh, Dydd Mawrth 21ain o Ionawr 2020. Ystafell Gynadledda C & D, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd.

Siaradwr: Y Bargyfreithiwr Gwion Lewis, ar destun ‘Y Gymraeg a Chynllunio’

Presennol: Colin Nosworthy, Carys Moseley, Wyn Thomas, Rhisiart Owen, Catrin Saunders, Nia Davies, Betsan Moses, Gwion Lewis, Dai Lloyd (AC), Rhun ap Iorwerth (AC)

Ymddiheuriadau: Catrin Griffiths, Suzy Davies (AC), Mike Hedges (AC)

Croeso ac Ymddiheuriadau

**Y Gymraeg a Chynllunio**

Cafwyd sgwrs gan Gwion Lewis ar bwnc y Gymraeg a Chynllunio, yn benodol yn edrych ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Wedyn cafwyd trafodaeth ar y materion a godwyd. Gwnaeth Gwion Lewis ddau argymhelliad: 1) dynodi a chynnwys ‘Ardaloedd Twf y Gymraeg’ yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; 2) Proffesiynoli sut rhoddid ystyriaeth i’r Gymraeg wrth bennu’r ‘Gofyniad Tai’ mewn cynlluniau datblygu drwy roi swyddogaeth newydd i Gomisiynydd y Gymraeg. Derbyniwyd awgrym Rhun ap Iorwerth y dylid ychwanegu ‘safoni’ i’r ail argymhelliad.

Ar sail argymhellion Gwion Lewis penderfynwyd fod y Grwp Trawsbleidiol yn drafftio llythyron i’w hanfon i Weinidog Cynllunio a Gweinidog yr Iaith Gymraeg yn Llywodraeth Cymru.

**Blaenraglen Waith**

Darllenwyd allan y rhestr o bynciau posib ar gyfer cyfarfodydd nesaf y Grwp Trawsbleidiol gan Dai Lloyd AC. Penderfynwyd ein bod yn trafod ar ebost pa un i’w ddewis ar gyfer y cyfarfod nesaf. Fel arfer dylid cael tri neu bedwar cyfarfod y flwyddyn.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

I’w benodi drwy ebost